BBC TEN PIECES

***MIGHTY RIVER*** **GAN ERROLLYN WALLEN**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Fran Hart

**GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN**

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

| | |
|---|---|
| **Y cyfansoddwr:** | **ERROLLYN WALLEN** |
| *Ynganiad:* | ERR-o-lyn WOL-yn |

- Mae Errollyn Wallen wedi teithio'n bell ac agos yn ei hangerdd dros y celfyddydau. Cafodd ei geni yn Belize, ac ar ôl cymryd diploma mewn perfformio piano bu'n astudio yn Theatr Ddawns Harlem, Efrog Newydd cyn penderfynu astudio cyfansoddi yn Lloegr mewn prifysgolion yn Llundain a Chaergrawnt.
- Mae ei cherddoriaeth wedi teithio cryn dipyn hefyd – cymerwyd CD o'i cherddoriaeth i'r gofod gan ofodwr ar daith NASA STS-115. Teithiodd bron i 5 miliwn o filltiroedd trwy gylchdroi'r Ddaear 186 o weithiau!
- Yn ôl ar y Ddaear, mae Errollyn Wallen yn un o'r '20 Cyfansoddwr Byw a gaiff eu Perfformio Amlaf' ac fe glywyd ei cherddoriaeth mewn sawl digwyddiad mawreddog. Hi oedd y cyfansoddwr benywaidd du cyntaf i ymddangos yn y BBC Proms ac mae hi hefyd wedi ysgrifennu cerddoriaeth ar gyfer Gemau Paralympaidd 2012, Jiwbilî Aur a Diemwnt y Frenhines a'r gynhadledd newid hinsawdd fyd-eang COP 26.
- Sefydlodd Errollyn Wallen y grŵp 'Orchestra X' sydd â'r arwyddair "we don't break down barriers in music... we don't see any".

© BBC 2024

**Y gerddoriaeth:** ***MIGHTY RIVER***

- Mae'r darn hwn o gerddoriaeth yn archwilio themâu caethwasiaeth a rhyddid drwy'r syniad o 'afon nerthol' – grym naturiol, diatal sy'n anelu at y cefnfor, yn union fel yr awydd dynol cynhenid i fod yn rhydd.
- Un symudiad sydd i *Mighty River* ac felly does dim seibiant yn y gerddoriaeth. Mae'n llifo, fel dŵr, o un syniad i'r llall.
- Mae Errollyn Wallen wedi cynnwys y caneuon ysbrydol adnabyddus 'Deep River' a 'Go Down Moses', yn ogystal â'r emyn 'Amazing Grace', yn y darn hwn. Cyflwynwyd yr alawon hyn i Brydain gyntaf dros 150 mlynedd yn ôl gan bobl a fu gynt yn gaethweision.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*
- Gwrando ar y gerddoriaeth a'i disgrifio, gan ganolbwyntio ar yr ysbrydol
- Canu a chwarae cerddoriaeth
- Creu cerddoriaeth gan ddefnyddio galw ac ateb, graddfa bentatonig, cordiau, synau traw a di-draw
- Perfformio mewn ensemble
- Dysgu geirfa gerddorol

*Adnoddau sydd eu hangen:*
- Offerynnau traw yr ystafell ddosbarth e.e. seiloffonau, glockenspiels
- Offerynnau di-draw yr ystafell ddosbarth e.e. tambwrinau, trionglau, drymiau, symbalau

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR (CA2)**
- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, gan ddefnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Cyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth
- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**
- Perfformio caneuon yn unsain ac mewn rhannau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, a chyfleu naws a chymeriad caneuon o ystod o arddulliau a diwylliannau
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gydag ansawdd.
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth

© BBC 2024

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol
- Rwy'n gallu myfyrio ar y ffordd y mae artistiaid wedi llwyddo i greu effeithiau neu gyfleu hwyliau, emosiynau a syniadau yn eu gwaith
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwydnwch a hyblygrwydd

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol.
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau, a chyfeiliannau cerddorol, a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maen nhw wedi'i chreu

***Y gwersi yn gryno***

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gwrando ar y dyfyniad/gwylio'r ffilm<br>Adnabod yr elfennau ysbrydol<br>Gwrando a chymharu â fersiwn arall<br>Archwilio, paratoi a pherfformio *Amazing Grace* |
| Bwriad dysgu: | Gwrando, myfyrio a chymharu'r gerddoriaeth a glywir<br>Canu a chwarae gyda rheolaeth (Blwyddyn 5 a 6 – defnyddiwch nodiant traw)<br>Dysgu sut i chwarae cordiau i baratoi a pherfformio *Amazing Grace* |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Canu a datblygu dealltwriaeth o alw ac ateb a'r raddfa bentatonig<br>Chwarae *Amazing Grace* gyda mwy o reolaeth ac ychwanegu cordiau |
| Bwriad dysgu: | Datblygu dealltwriaeth o alw ac ateb<br>Datblygu sgiliau chwarae cywir<br>Archwilio'r raddfa bentatonig |

© BBC 2024

***GWERS 3:***

Gweithgareddau:

Canolbwyntio ar daith caethwasiaeth ar draws y môr

Creu cerddoriaeth gan ddefnyddio galw ac ateb, cordiau, offerynnau traw a di-draw a lleisiau, gan ddefnyddio'r raddfa bentatonig

Bwriad dysgu:

Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir

Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol

Defnyddio'r raddfa bentatonig, cordiau, offerynnau traw a di-draw a synau lleisiol gyda rheolaeth

***GWERS 4:***

Gweithgareddau:

Perfformio darn sy'n strwythuro perfformiad y dosbarth o *Amazing Grace* gyda galw ac ateb a chyfansoddiadau'r grŵp ar gaethwasiaeth

Bwriad dysgu:

Datblygu rheolaeth ar seiniau i'w chwarae a'u canu gyda mwy o fynegiant

Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

© BBC 2024

# GWERS 1

*Bwriad dysgu*

- Gwrando, myfyrio a chymharu'r gerddoriaeth a glywir
- Canu a chwarae gyda rheolaeth (**Bl 5 a 6/P6&7** – defnyddier nodiant traw)
- Dysgu chwarae cordiau i baratoi a pherfformio *Amazing Grace*

## 1. CAM CYNTAF

Gwyliwch neu gwrandewch ar *Mighty River* gan Errollyn Wallen. Darllenwch y dyfyniad hwn gan Errollyn Wallen am ei darn i'r dosbarth, a thrafodwch:

*"Greddf ddynol gynhenid ydi bod yn rhydd. Yn union fel y mae'n ddeddf natur bod yr afon yn rhuthro benben i'r môr. Mae symud parhaol y gerddoriaeth, fel dŵr, fel amser, trwy ei fomentwm pur, yn cario llefau ac adleisiau calonnau a lleisiau dynol sy'n canu o ganol dioddefaint, edifeirwch, gostyngeiddrwydd a gobaith."*

## 2. DYSGU

Trafodwch agoriad *Mighty River*, a chwaraeir ar y corn, gan ofyn i'r dosbarth a oes unrhyw un yn adnabod y dôn sy'n cael ei chwarae.

Dyma emyn-dôn (cân sy'n cael ei chanu yn yr eglwys neu gapel) adnabyddus (Pererin Wyf yn Gymraeg) sydd hefyd yn gân ysbrydol, o'r enw *Amazing Grace*.


Gwrandewch ar agoriad *Mighty River* eto ac wedyn gwrandewch ar berfformiad arall o *Amazing Grace* ar-lein (cofiwch sicrhau bod y fersiwn yn addas i blant cyn ei dangos i'r dosbarth). Cymharwch y ddwy fersiwn gyda'r dosbarth, gan ystyried a) elfennau tebyg b) elfennau gwahanol c) pa fersiwn sydd orau gan y myfyrwyr, a pham.

Trafodwch gyda'r dosbarth beth yw cân ysbrydol, a'i chysylltiad â'r fasnach gaethweision.

Fel dosbarth, canwch *Amazing Grace: /Pererin Wyf?*

© BBC 2024

# Amazing Grace





### 3. Y BRIF DASG


**Bl 3 a 4/P4&5** – datblygu cywirdeb canu

Esboniwch i'r dosbarth beth yw cordiau: cord yw pan fydd dau nodyn neu fwy yn cael eu chwarae ar yr un pryd. Mae nodau nesaf at ei gilydd, o'u chwarae ar yr un pryd, yn gwrthdaro ac yn anghyfforddus i'n clustiau; rydyn ni'n eu galw'n anghytgordiau. Pan gaiff nodau bob-yn-ail eu chwarae ar yr un pryd, maen nhw'n swnio'n gyfforddus: cytgordiau ydi'r enw ar y rhain. Mae gan bob cytgord enw, e.e. C fwyaf, ac yn gyffredin maen nhw'n cynnwys tri nodyn (triawd), e.e. CEG. [Gweler y dudalen hon CA2 BBC Bitesize am fwy o fanylion.]


## G FWYAF






## C FWYAF










© BBC 2024

# D FWYAF





* newidiwch y bar F am un F# os yn bosibl. Os na, defnyddiwch D ac A yn unig

Dysgwch chwarae'r cordiau, gan roi gwahanol nodau i'r plant i'w chwarae ar offerynnau'r ystafell ddosbarth fel seiloffonau neu glockenspiels.

| Cord | Nodau'r cord | Seiloffon / glockenspiel |
|---|---|---|
| G fwyaf | G B D | G B neu G D |
| C fwyaf | C E G | C E neu C G |
| D fwyaf | D F# A | D F# neu D A |

Ymarferwch chwarae'r cordiau ar yr adeg gywir yn y gân gyda hanner y dosbarth yn chwarae, a hanner y dosbarth yn canu. Heriwch ddisgybl sy'n dysgu offeryn i chwarae'r alaw. Heriwch y disgyblion i ganu pennill ar eu pennau eu hunain (unawd).

**GEIRIAU *AMAZING GRACE***

| | |
|---|---|
| 1 Amazing grace (how sweet the sound)<br>that saved a wretch like me!<br>I once was lost, but now am found,<br>was blind, but now I see. | 4 The Lord has promised good to me,<br>his word my hope secures;<br>he will my shield and portion be<br>as long as life endures. |
| 2 'Twas grace that taught my heart to fear,<br>and grace my fears relieved;<br>how precious did that grace appear<br>the hour I first believed! | 5 Yes, when this flesh and heart shall fail,<br>and mortal life shall cease:<br>I shall possess, within the veil,<br>a life of joy and peace. |
| 3 Through many dangers, toils and snares<br>I have already come:<br>'tis grace has brought me safe thus far,<br>and grace will lead me home. | 6 The earth shall soon dissolve like snow,<br>the sun forbear to shine;<br>but God, who called me here below,<br>will be forever mine. |

© BBC 2024

**GEIRIAU *PERERIN WYF***

Pererin wyf mewn anial dir
yn crwydro yma a thraw,
ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
fod tŷ fy Nhad gerllaw.

Ac mi debygaf clywaf sŵn
nefolaidd rai o'm blaen,
wedi gorchfygu a mynd drwy
dymhestloedd dŵr a thân.

Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
bydd imi'n niwl a thân;
ni cherdda' i'n gywir hanner cam
oni byddi di o'm blaen.

Mi wyraf weithiau ar y dde
ac ar yr aswy law;
am hynny arwain, gam a cham
fi i'r baradwys draw.

Mae hiraeth arnaf am y wlad
lle mae torfeydd di-ri'
yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
am angau Calfarî.

**Bl 5 a 6/P6&7** – Dysgwch sut i chwarae alaw *Amazing Grace* o nodiant:

## *AMAZING GRACE*




Gellir torri hwn i lawr yn frawddegau 4 bar, gyda phob grŵp i ddysgu un frawddeg. D.S. mae brawddegau 1, 2 a 4 yn dechrau yn yr un ffordd.

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| Brawddeg 1 |   |
| Brawddeg 2 |   |
| Brawddeg 3 |   |
| Brawddeg 4 |   |

Heriwch ddisgyblion sy’n teimlo’n fwy hyderus i chwarae’r alaw gyfan.

Gallech gychwyn drwy ddweud wrth y dosbarth ei fod yn dechrau ar y nodyn D. Gofynnwch iddyn nhw geisio gweithio allan y nodau nesaf trwy wrando ac arbrofi. Allan nhw weithio allan rywfaint o’r alaw o’r glust? I’w helpu, efallai y bydd angen rhoi copïau papur o’r alaw i’r dosbarth a hwyrach y bydd angen tipyn o waith i’w helpu i weithio allan pob nodyn yn eu rhan nhw.

## 4. SESIWN GLOI

Paratowch a pherfformio *Amazing Grace* gan gytuno ar sawl pennill i’w chwarae, a fydd unrhyw bennill yn cael ei ganu gan unawdydd a sut y bydd y perfformiad yn dechrau ac yn gorffen.

## 5. CWIS DEWISOL

| | |
|---|---|
| **Lle bydd emyn yn cael ei glywed fel arfer?** | Mewn eglwys neu gapel |
| **Beth yw cord?** | Dau neu fwy o nodau wedi’u chwarae ar yr un pryd |
| **Beth yw’r gair am rywun sy’n perfformio cerddoriaeth ar ei ben ei hun?** | Unawdydd |
| **Beth yw’r gair am rywun sy’n creu cerddoriaeth?** | Cyfansoddwr |
| **Beth yw brawddeg mewn cerddoriaeth?** | Rhan o alaw, e.e. 4 bar neu linell o eiriau |
| **Beth yw nodiant?** | Symbolau sy’n cynrychioli sain |

© BBC 2024

# GWERS 2

*Bwriad dysgu*

- Datblygu dealltwriaeth o alw ac ateb
- Datblygu sgiliau chwarae cywir
- Archwilio'r raddfa bentatonig

## 1. CYCHWYN

Gwyliwch a gwrandewch ar *Mighty River* gan Errollyn Wallen. Gofynnwch i'r plant ddangos (er enghraifft drwy godi eu dwylo) bob tro y clywant gyfeiriad at alaw *Amazing Grace*: 1'56 (ffliwt), 2'06 (obo), 2'28 (llinynnau), 4'05 (trwmpedau) ac ati.

Gwrandewch ar *Swing Low, Sweet Chariot* (er enghraifft, y fersiwn yma gan y Plantation Singers) sy'n gân ysbrydol arall.


Gofynnwch i'r dosbarth a ydyn nhw wedi clywed neu wedi dod ar draws galw ac ateb o'r blaen.

'Sgwrs' gerddorol ydi galw ac ateb lle mae'r alaw gyntaf fel cwestiwn gan un cerddor (y blaenwr cerddorol) ac yna mae eraill yn ateb neu'n ymateb. Gall fod yn lleisiol neu'n offerynnol ac mae'n strwythur a ddefnyddir mewn llawer o draddodiadau cerddoriaeth gwahanol, gan gynnwys mewn cerddoriaeth o Affrica.

Fel dosbarth, nodwch y defnydd o alw ac ateb yn *Swing Low, Sweet Chariot.*

Canwch *Swing Low, Sweet Chariot* fel dosbarth.

## SWING LOW, SWEET CHARIOT




© BBC 2024

## 2. Y BRIF DASG

Adolygwch *Amazing Grace* o'r wers ddiwethaf, gan ddatblygu cywirdeb wrth chwarae. **Bl 5 a 6/P6&7** – ychwanegwch gordiau os yn bosibl (gweler Gwers 1, Bl 3 a 4/P4&5).

### *AMAZING GRACE*




O edrych ar y nodiant, nodwch pa drawiau (nodau) a ddefnyddir yn yr alaw:

D E G A B

Graddfa bentatonig ydi hon – graddfa pum nodyn. Mae llawer o enghreifftiau o'r rhain, a chânt eu defnyddio mewn cerddoriaeth o draddodiadau gwahanol ledled y byd, e.e. Affrica, Tsieina, Indonesia. Mae cerddoriaeth orllewinol yn tueddu i ddefnyddio graddfa ddiatonig – saith traw dros un wythfed.

**Bl 3 a 4/P4&5** – fel dosbarth, archwiliwch y raddfa bentatonig (D E G A B) a chreu galw ac ateb bentatonig, lle mai un chwaraewr yw'r galwr a phawb arall yn ymateb. Dim ond y nodau D E G A B y cewch chi eu defnyddio.

**Bl 5 a 6/P6&7** – mewn grwpiau, crëwch alaw bentatonig galw ac ateb, lle mai un aelod o'r grŵp yw'r galwr a gweddill y grŵp yn ymateb.

Cwestiynau i'w hystyried:
- Wnawn ni ei chanu a/neu ei chwarae?
- Pwy fydd y galwr?
- Sawl gwaith wnawn ni ei chwarae/canu?

## 3. SESIWN GLOI

Defnyddiwch alw ac ateb, ymarferwch a pherfformiwch *Amazing Grace* gyda rhagarweiniad a diweddglo galw ac ateb.

**Bl 5 a 6/P6&7** – cytunwch ar grwpiau gwahanol i rannu eu galw ac ateb gyda nhw, gyda'r dosbarth cyfan i ganu pob perfformiad.

© BBC 2024

## 4. CWIS DEWISOL

| | |
|---|---|
| **Beth yw galw ac ateb?** | Un cerddor yn canu neu'n chwarae brawddeg gerddorol, a cherddorion eraill yn ateb neu'n copïo'r frawddeg |
| **Faint o nodau sydd mewn graddfa bentatonig?** | Pump |
| **Beth yw'r enw ar adran agoriadol darn o gerddoriaeth?** | Rhagarweiniad |
| **Pa strwythur sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin ar ddechrau cerddoriaeth Affricanaidd?** | Galw ac ateb |
| **Beth yw traw?** | Pa mor uchel neu isel yw sain |
| **Beth yw emyn?** | Cân grefyddol |

© BBC 2024

# GWERS 3

*Bwriad dysgu*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir
- Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol
- Defnyddio'r raddfa bentatonig, cordiau, offerynnau traw a di-draw a synau lleisiol gyda rheolaeth

## 1. CAM CYNTAF

Gwrandewch ar *Mighty River* a nodwch/ystyriwch sut mae'r gerddoriaeth hon yn cyfleu dŵr a'r daith a wnaed gan gaethweision

Trafodwch gyda'r dosbarth sut mae'r offerynnau'n cael eu defnyddio (yn enwedig y patrymau ailadroddus llifol, gorgyffyrddol e.e. 1'22 yn y chwythbrennau.

Mae'r gerddoriaeth yn legato, sef llyfn, a cheir newidiadau yn yr arwydd amser, sef y mydr neu nifer y curiadau mewn bar, gan adlewyrchu taith amrywiol a chaled o bosib. Ydi'r gerddoriaeth yn swnio'n gyfforddus? Weithiau mae'r nodau'n gwrthdaro, gan greu anghytgordiau, a allai adlewyrchu'r daith anodd.

Trafodwch sut mae'r alaw yn cael ei chwarae gan wahanol offerynnau yn ystod y darn – y corn, y fiolinau, y ffliwt, y clarinét a'r trwmped, cyn dychwelyd i'r corn ar y diwedd. Gofynnwch i'r dosbarth drafod a dweud pam maen nhw'n meddwl bod Errollyn Wallen (y cyfansoddwr) efallai wedi gwneud hyn.

## 2. Y BRIF WEITHGAREDD

Fel dosbarth, adolygwch bopeth a wnaethoch hyd yma yng Ngwers 1 a 2 (gan gynnwys dysgu a pherfformio *Amazing Grace,* creu galw ac ateb, a dysgu am raddfeydd pentatonig).

Adolygwch y raddfa bentatonig, gan chwarae'r nodau D E G A B.

Ystyriwch *Mighty River* a'r ysbrydoliaeth dros ei chreu – diddymu'r Ddeddf Masnachu Caethweision, llif pobl, teithio'r môr, a'r dioddefaint o gael eich dadleoli o'ch cartref. Os yn briodol, cysylltwch hyn â straeon newyddion cyfoes y rhai sy'n chwilio am loches yng ngwledydd Prydain.

Gofynnwch i'r dosbarth sut mae'n bosibl cyfleu'r themâu hyn mewn cerddoriaeth.

© BBC 2024

**3. TASG**

Crëwch ddarn o gerddoriaeth fynegiannol (sef cerddoriaeth sy'n dangos emosiynau a theimladau, a hynny trwy ddefnydd gofalus a rheoledig o elfennau fel tempo, dynameg, traw, gwead ac ati) i gyfleu'r daith hon, gan ddefnyddio:

- Graddfa bentatonig (D E G A B)
- Seiniau lleisiol
- Offerynnau traw
- Offerynnau di-draw
- Cordiau

**Bl 3 a 4/P4&5** – gweithiwch fel dosbarth gan roi gwahanol offerynnau/lleisiau i wahanol grwpiau o blant. Gall yr offerynnau traw a'r lleisiau weithio gyda'i gilydd i ddatblygu alaw bentatonig neu gallent weithio ar wahân i greu gwahanol alawon. Cwestiynau i'w hystyried:

- Wnaiff y rhain weithio ar yr un pryd?
- Fydd y cantorion yn defnyddio geiriau neu seiniau lleisiol?
- Sut gaiff y cordiau eu defnyddio?
- Pa gordiau gaiff eu defnyddio? Cytgordiau, e.e. G fwyaf, C fwyaf, D fwyaf.
- Fydd 'na anghytgordiau – cordiau anghyfforddus?
- Fydd y rhythmau'n ostinato (patrwm ailadroddus cyson)?
- Pa offerynnau di-draw fyddai'n addas i'w defnyddio?
- Pryd fyddai hon yn chwarae?

**Bl 5 a 6/P6&7** – dylai'r grwpiau (yr un grwpiau â Gwers 2) greu alaw bentatonig a datblygu cordiau (cytgordiau ac anghytgordiau) o'i chwmpas. Cwestiynau i'w hystyried:

- Sut gaiff lleisiau eu defnyddio?
- Sut gaiff seiniau di-draw eu defnyddio?
- Sut gaiff y gerddoriaeth ei mynegi i gyfleu emosiynau'r daith?
- Sut fydd y grwpiau'n defnyddio'u galw ac ateb o wers 2?
- Sut fydd eu cerddoriaeth yn cyfleu symudiad y môr?

**4. SESIWN GLOI**

Perfformiwch gerddoriaeth y daith (**Bl 3 a 4/P4&5** – fel dosbarth, **BL 5 a 6/P6&7** – darnau grŵp ar wahân). Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- Ydi'r gerddoriaeth yn cyfleu emosiynau?
- Ydi hi'n bodloni'r meini prawf i gyd?
- Ydi'r strwythur yn gweithio?
- Sut y gellir ei wella?

© BBC 2024

**5. CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Offeryn traw ynteu di-draw yw drwm?** | Di-draw |
| **Beth yw’r gair am seiniau a wneir gyda’r geg?** | Lleisiol |
| **Enwch y ddau fath o gytgord.** | Mwyaf a lleiaf |
| **Enwch nodau’r raddfa bentatonig gan ddechrau ar D** | D E G A B |
| **Beth yw dynameg?** | Pa mor uchel neu dawel yw’r gerddoriaeth |
| **Beth yw mynegiant mewn cerddoriaeth?** | Emosiynau neu deimladau |

© BBC 2024

# GWERS 4

*Bwriad dysgu*

- Datblygu rheolaeth ar seiniau i'w chwarae a'u canu gyda mwy o fynegiant
- Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

## 1. CAM CYNTAF

Gwrandewch ar agoriad *Mighty River* gan Errollyn Wallen, a gyflwynwyd i'w hen hen hen hen hen hen fam-gu. Trafodwch yr emosiynau a allai fod wedi dylanwadu ar Errollyn Wallen wrth gyfansoddi'r gerddoriaeth. Meddyliwch am yr emosiynau personol sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethweision a symudiad pobl (a drafodwyd yng Ngwers 3).

Ystyriwch gyda'r dosbarth sut y gallant wneud eu cerddoriaeth yn fwy mynegiannol. Ystyr mynegiant yw'r emosiwn a'r teimlad a ddangosir mewn cerddoriaeth, a hynny trwy ddefnydd gofalus a rheoledig o elfennau fel tempo, dynameg, traw, gwead ac ati.

Canwch *Amazing Grace.* Sut mae rhoi mwy o fynegiant i'r perfformiad? Gellid gwneud hyn trwy newid y tempo, y ddynameg neu'r gwead. Canwch hi'n ddigyfeiliant – heb ddim offerynnau yn y cefndir – ac wedyn ychwanegwch yr alaw a'r cordiau. Sut mae hyn yn newid y mynegiant?

## 2. Y BRIF DASG

Hyd yn hyn, mae'r dosbarth wedi dysgu *Amazing Grace,* wedi creu galw ac ateb ac wedi cyfansoddi cerddoriaeth daith fynegiannol gan ddefnyddio'r raddfa bentatonig.

Nawr dylai myfyrwyr strwythuro (trefnu) perfformiad sydd:

- yn dechrau gydag ateb a galw
- yn cynnwys y gerddoriaeth daith fynegiannol bentatonig
- yn cynnwys *Amazing Grace*

Penderfynwch fel dosbarth sut i strwythuro'r gwahanol adrannau.

**Bl 5 a 6/P6&7** – gall hyn fod yn berfformiadau grŵp ar wahân gyda'r dosbarth cyfan yn perfformio'r gân, neu'n un perfformiad hir lle mae pob grŵp yn perfformio eu galw ac ateb a'u cerddoriaeth daith bentatonig, gan ddychwelyd at gân y dosbarth cyfan rhwng gwaith pob grŵp. Strwythur rondo fyddai hyn.

**Pob grŵp blwyddyn**: Ymarferwch y strwythur y cytunwyd arno, gan roi cyfle i'r disgyblion wella eu gwaith, gan ddefnyddio adborth o wersi blaenorol.

© BBC 2024

Cwestiynau i’w hystyried:

- Sut fydd y perfformiad yn dechrau?
- Sut fydd y darn yn gorffen?
- Sut gaiff y gân ei pherfformio? Unawdydd? Gyda chyfeiliant? Heb gyfeiliant?
- A fydd angen arweinydd? Rhywun sy’n rheoli’r perfformiad ydi arweinydd, gan osod y tempo a phwyntio at chwaraewyr i ddechrau a thewi. Maen nhw’n gallu helpu i ddangos dynameg hefyd.
- Sut fydd y perfformiad yn fynegiannol? Oes modd gwella hyn?
- Sut fydd pawb yn gwybod beth maen nhw’n ei ganu neu’n ei chwarae a phryd?

**3. SESIWN GLOI**

Perfformiwch a recordiwch y perfformiad(au) terfynol. Gallai hyn fod yn berfformiad byw o flaen y dosbarth neu o flaen yr ysgol neu’n berfformiad wedi’i recordio ar ddyfais recordio, fel iPad.

**4. GWERTHUSO**

Trafodwch beth mae’r dosbarth wedi’i gyflawni a pha mor effeithiol ydoedd. Gofynnwch i’r dosbarth ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth fyddech chi’n ei wneud yn wahanol pe baech chi’n gwneud hyn eto?
- Beth ydych chi wedi’i ddysgu o wneud hyn?

**5. CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Beth yw strwythur mewn cerddoriaeth?** | Trefn yr adrannau, neu gynllun |
| **Beth yw ystyr cyfeilio?** | Chwarae cerddoriaeth yn y cefndir/mewn rôl gefnogol |
| **Beth mae arweinydd yn ei wneud?** | Rheoli’r perfformiad |
| **Beth yw gwead?** | Haenau’r gerddoriaeth – pa mor ‘drwchus’ neu ‘denau’ mae’n swnio |
| **Beth yw’r gair cerddorol am emosiwn?** | Mynegiant |
| **Ai offeryn traw ynteu di-draw yw glockenspiel?** | Traw |

© BBC 2024

**CAMAU PELLACH**

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **CERDDORIAETH:** Gwrandewch a dysgwch ganu caneuon ysbrydol eraill, e.e. *Down By The Riverside, Good News, Go Down Moses, Steal Away.* Perfformiwch ddetholiad o'r rhain mewn gwasanaeth neu gyngerdd ysgol (gweler isod).

- **SAESNEG/ADDYSG GREFYDDOL:** Dadansoddwch eiriau caneuon ysbrydol a'u cymharu. Oes ganddyn nhw fydr cyffredin? Oes ganddyn nhw nifer gyffredin o linellau? Beth maen nhw'n ei olygu? Oes 'na gyfeiriadau at y Beibl? Beth allwn ni ei ddysgu oddi wrthyn nhw?

- **DAWNS:** Dysgwch ddawns Juba Affricanaidd sy'n defnyddio patrymau clapio rhannau o'r corff, sef rhythmau drymio a ddefnyddid i gyfathrebu negeseuon. Gweler BBC Ten Pieces – Florence Price Symphony No. 1, *Juba Dance*

- **CERDDORIAETH:** Dysgwch am offerynnau a rhythmau Affricanaidd. Ymchwiliwch sut y dylanwadodd y rhain ar arddulliau cerddorol eraill e.e. Blues, Samba ac ati.

- **HANES/DAEARYDDIAETH:** Dysgwch am y fasnach gaethweision, gan gynnwys symudiad pobl o gwmpas y byd a'r effaith ar fywyd heddiw (gan gynnwys y gerddoriaeth sydd wedi deillio o hyn, er enghraifft, blues). Cyflwynwch y wybodaeth a ddysgwyd yn y gwasanaeth uchod, gan helpu plant a/neu deuluoedd eraill i gael dealltwriaeth ddyfnach o gaethwasiaeth.

**GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR**

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| Alaw | Y dôn, sef cymysgedd o seiniau uchel ac isel eu traw yn chwarae un ar ôl y llall (dyma'r rhan o'r gerddoriaeth y byddwch chi'n aml yn eich cael eich hun yn ei chanu neu'n ei chofio) |
| Arwydd amser | Nifer y curiadau mewn bar, neu'r mydr |
| Brawddeg | Rhan o alaw neu rythm, e.e. lle i anadlu, fel atalnod mewn ysgrifen |
| Cân ysbrydol | Cân grefyddol sy'n gysylltiedig â chaethweision du, yn tarddu mae'n debyg o gyfuniad o emynau Ewropeaidd a cherddoriaeth Affricanaidd |
| Cordiau | Dau neu fwy o nodau wedi'u chwarae ar yr un pryd |
| Cyfansoddi | Creu cerddoriaeth wreiddiol |
| Emyn | Cân grefyddol |
| Galw ac ateb | Un cerddor yn canu neu'n chwarae brawddeg gerddorol, a cherddorion eraill yn ateb neu'n copïo'r frawddeg |
| Graddfa bentatonig | Graddfa 5 nodyn, e.e. CDEGA neu DEGAB |
| Legato | Seiniau llyfn |

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| Lleisiol | Seiniau a wneir gan y geg, e.e. ssh, hymian, canu, bît-bocsio |
| Nodiant | Sain a gynrychiolir mewn symbolau e.e. hen nodiant |
| Offerynnau di-draw | Offerynnau heb seiniau o wahanol drawiau, na ellir eu defnyddio i chwarae alaw, e.e. triongl |
| Offerynnau traw | Offerynnau sydd â gwahanol drawiau ac y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn e.e. glockenspiel |
| Strwythur | Trefn y gwahanol adrannau sy'n ffurfio darn o gerddoriaeth, e.e. rhagarweiniad, pennill, cytgan, diweddglo |
| Symudiad | Strwythur a ddefnyddir i rannu cyfansoddiad cerddorol hirach e.e. gall symffoni fod yn dri neu bedwar symudiad |
| Unawd | Chwaraewr neu ganwr yn perfformio ar ei ben ei hun |

© BBC 2024